CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION IONAWR 12, 2016

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Ionawr 12, 2016 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Gethin Williams, John Hughes, Janet Edwards, Eirlys Roberts, Llinos Williams ac Elfed ap Gomer. Hefyd Henry Edwards

1. Ymddiheuriadau: Carwyn Evans a Peredur Jenkins.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Rhagfyr 8, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Rhagfyr 8, 2015

Eitem 5.b. Wedi gwneud ymholiadau gyda Mrs Nia Rowlands, mae llythyr (27/3/1991) oddi wrth Commonwealth War Grave Commission yn rhoi gwybod mae bedd Gnr. G. Jones (rhif A/259) a bedd Capt. Evan Williams Edwards (rhif A/298) yn y fynwent. Mae CWGC yn talu £10 y flwyddyn i'r Cyngor i gynnal a chadw'r ddau fedd ac yn cael ei dalu pob tair blynedd.
(JONES, Gnr. G., 279732. "A" Bty. 117th Bde. Royal Field Artillery. 13th July, 1920. Son of Mrs Ellen Jones, of Brynafon, Bontddu, Dolgelley.
EDWARDS, Capt. Evan Williams, 123865. 11th Bn. The Royal Welch Fusiliers. 2nd September, 1944. Age 51. Son of William and Elizabeth Edwards; husband of Violet Anne Edwards of Dolgelley).

Eitem 10.a. Cafwyd cyfarfod i gael cynghorau dalgylch y Gader i gyd-weithio. Roedd 12 aelod yn bresennol. Yn bresennol o'r Cyngor oedd Peredur Jenkins a Henry Edwards.

Mae'r cynghorau yn awyddus i barhau trafod cael cyngor gyd-weithio ond ddim yn gwybod sut i fynd ymlaen. Penderfynwyd cynnal cyfarfod i'r holl gynghorau yn nalgylch y Gader yn Penarlag gydag Anwen Davies, Rheolydd Mentrau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd yn bresennol i roi arweiniad.

5. Materion Ariannol

a. Derbyniwyd (09-12-15) £576.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at ad-daliad am dorri llwybrau cyhoeddus Bontddu.

b. Llythyr (18 Rhagfyr 2015) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen i ni ddarparu manylion praesept am 2016 / 2017. Maent angen y wybodaeth erbyn Ionawr 29, 2016.

Y praesept presennol yw £6,500.00. Codwyd y praesept o £6,000.00 yn 2015.

Penderfynwyd i'r praesept fod yn £6,500. Er hynny, nid oes sicrwydd beth fydd y costau am y flwyddyn ac ni chafwyd arweiniad gan Cyngor Gwynedd.

c. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr 2015: £8,905.48.

ch. Derbyniwyd (08/01/2015) siec am £550.00 (claddedigaeth bellach) oddi wrth Glyn Rees & Son. Taliad at John Kenneth Williams.

d. Bil (8/1/2016) am £320.00 oddi wrth Paul Cook i ail-agor bedd yn y Fynwent at wasanaeth ar 4/1/2016.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Llythyr (5 Ionawr 2016) oddi wrth Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn diolch am ein rhodd o £50 tuag at Apêl Cylch Dolgellau - Sioe Frenhinol Cymru 2016.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (Rhagfyr 17, 2015). Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar Asesiad o Sensitifrwydd a Capasati y Dirwedd. Mae'r ddogfen yn rhan o Canllaw Cynllunio Atodol. Mae'r wybodaeth yn swyddfa'r Parc a llyfrgelloedd.

b. Cais cynllunio NP5/65/124C. Creu compownd storio dros dro ar gyfer ail wampio'r ysgol. Tir ger Cysgod y Glyn, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

c. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. NP5/65/133D. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cais llawn ar gyfer estyniad ac addasiadau i'r ysgol ynghyd a cae chwarae newydd, ac ymestyn cilfan i greu lle parcio ychwanegol. Ysgol Gynradd Llanelltyd, Llanelltyd.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (9/12/2015) oddi wrth Un Llais Cymru. Cyfle i'r Cadeirydd a'i gwestai cael gwadd i arddwest Ei Mawrhydi ym Mhalas Buckingham ar 10 Mai, 19 Mai, 24 Mai 2016.

b. Llythyr (Rhagfyr 2015) oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd gyda manylion modurdai sydd ar osod yn Bro Cymer, Llanelltyd.

c. Llythyr (17 Rhagfyr (2015) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith cyflwyno gwelliannau diogelwch ar ffordd A496 yn Taicynhaeaf.

ch. Llythyr (19 Tachwedd, 2015) oddi wrth Dawns Gymuned ar Gyfer Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

d. Llythyr (17/12/2015) oddi wrth Cyngor ar Bobeth, Gwynedd a De Ynys Môn. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

dd. Llythyr (Rhagfyr 2015) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Yn absenoldeb Peredur Jenkins, cafwyd gwybod gan Gethin Williams ni fydd y toriadau ariannol mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu mor ddrwg. Y toriadau fydd £5m ac nid £7m.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen gwagio cwterydd ar ffyrdd yn ardal Bontddu am eu wedi cau, a chlirio ffosydd ar ochr ffordd Cwm Mynach yn enwedig wrth Ty'n y Coed.

b. Mae clo drws y 'Dynion' yn Toiledau Bontddu wedi cael ei dorri.

c. Penderfynwyd gwneud ymholiadau gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar ddiweddaraf ynglŷn â'r paneli metal sydd ar ffenestri Halfway House.